

Croeso i gylchlythyr trwyddedu rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar rai newidiadau yr ydym wedi'u gwneud i'n prosesau a'n dogfennau cais trwydded, yn ogystal â newidiadau diweddar i'r gyfraith.

Ffurflenni cais a dogfennau newydd

O 30 Tachwedd 2017 mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Rhywogaethau Gwarchoddedig Ewropeaidd wedi'i gyfuno i Reoliad newydd - "Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017". O ganlyniad, mae ein holl ddogfennau, gan gynnwys ffurflenni cais wedi'u diwygio a'u diweddarau. **Sicrhewch eich bod yn cyfeirio at ein gwefan i lawrlwytho'r fersiynau diweddaraf cyn gwneud cais am drwydded.**

Mae gennym hefyd **ffurflen templed cyfeirio newydd** y dylid ei ddefnyddio wrth ddarparu cyfeiriadau.

Byddwn yn gorfodi'r ffurflenni cais newydd a'r ffurflen templed cyfeirio o **1 Mawrth 2018** a bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu gwrthod gan ddefnyddio ffurflenni neu dempledi sydd wedi dyddio.

Gofynnwn i'r archwiliadau cais gael eu gwirio'n drylwyr er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau yn cael eu cyflwyno. Os yw cais yn anghyflawn mewn unrhyw ffordd, caiff hyn ei wrthod. Mae unrhyw geisiadau a wrthodwyd yn cael eu dileu o'n system, a bydd angen cyflwyno ailgyflwyniadau yn llawn.

Ceisiadau trwydded – iechyd a diogelwch

Am unrhyw gais am drwydded Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir a gyflwynwyd gydag iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd wedi'i farcio fel y pwrpas, sicrhewch fod tystiolaeth ddigonol yn cael ei gyflwyno i ddangos bod y gwaith arfaethedig ar gyfer mater iechyd/ ddiogelwch dilys.

Gall hyn gynnwys tystiolaeth ffotograffig, fideos, adroddiadau strwythurol, adroddiadau gwasanaeth brys, ac unrhyw wybodaeth ategol berthnasol arall. Os na ddarperir digon o dystiolaeth, gallai hyn oedi cyhoeddi'r drwydded. Os nad yw'r cais ar gyfer diben iechyd a / neu ddiogelwch dilys, peidiwch â dewis y pwrpas yma ar y ffurflen gais.

Ceisiadau adar bysgodol – Ffurflen logio

Yr ydym dan graffu cynyddol ynglŷn â chyhoeddi'r trwyddedau hyn. Sylwer bod rhaid i geisiadau trwydded fod mor gadarn â phosib, gan ddefnyddio'r data diweddaraf a darparu tystiolaeth o rifau adar, rhywogaethau a gweithgareddau.

Er mwyn cynorthwyo i gasglu'r wybodaeth hon, rhaid cwblhau'r ffurflen 'Camau Gweithredu' yn ystod y cyfnod rhwng eich dyddiad terfynu ar gyfer y drwydded gyfredol, a dechrau eich trwydded newydd, neu cyn cais trwydded newydd. Rhaid i hyn ddarparu cofnod o'r dulliau nad ydynt yn farwol sy'n cael eu defnyddio, a chadw cofnod o nifer yr adar a arsylwyd.

Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach o'r nifer o adar a welir trwy gydol y flwyddyn. Rhaid cwblhau'r ffurflen dros gyfnod o 10 ymweliad safle o leiaf, a gynhelir o leiaf 3 diwrnod ar wahân. Yna dylid cyflwyno'r ffurflen gydag unrhyw gais am drwydded newydd neu adnewyddu. Ni fydd CNC yn gallu asesu unrhyw geisiadau yn absenoldeb cofnod cyflawn o ffurflen weithredu.

Adrodd am gydymffurfiaeth

Sicrhewch fod templed archwilio cydymffurfiaeth yn cael ei ddefnyddio wrth gyflwyno archwiliad/adroddiad cydymffurfio. Bydd hyn yn helpu i lywio'r wybodaeth y mae angen i ni ei gyflwyno fel rhan o'r archwiliad. Gellir gweld y templed ar y welfan.



Dylid cyfeirio pob ymholiad trwy'r Adran Ymholiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000653000.